

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION



SCHOOL
HEALTH
RESEARCH
NETWORK

Croeso i'n trydydd cylchlythyr. Rydym ni wedi bod yn brysur ers yr un diwethaf ym mis Gorffennaf ac yn dymuno rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am y Rhwydwaith.

Gyda chymorth amhrisiadwy Uned Dreialon De-ddwyrain Cymru, bu modd i ni roi adborth i bob un o ysgolion y Rhwydwaith ar ddata eu myfyrwyr o'r arolwg Ymddygiad lechyd Plant Oed Ysgol. Ar ddiwedd tymor yr haf, anfonwyd Adroddiad lechyd a Lles Myfyrwyr wedi'i deilwra, gyda siartiau hawdd eu darllen, a ffyrdd awgrymedig o ddefnyddio'r data, at holl benaethiaid ysgolion y Rhwydwaith.

Ers yr haf, mae rheolwr y Rhwydwaith, sef Joan, wedi ymweld â nifer o ysgolion y Rhwydwaith. Roedd yr ymweliadau hyn yn ddefnyddiol iawn o ran casglu safbwytiau athrawon ynglŷn â'r Adroddiadau lechyd a Lles Myfyrwyr ac i gyfarfod â staff o'r ysgolion nad oeddent yn gallu anfon cynrychiolwyr i'r digwyddiad lansio. Mae'r adborth ar yr adroddiadau o'r digwyddiad lansio a'r ymweliadau dilynol hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae staff ysgolion o'r farn bod yr adroddiadau'n hygrych ac yn hawdd eu darllen, a bod y data yn dyddnt wedi'i ddewis yn dda. Maent hefyd yn gwerthfawrogi'r arweiniad ar sut y gellid defnyddio'r adroddiadau yn yr ysgol, a'r cysylltiadau eglur rhwng yr adroddiadau a Chamau Gweithredu Ysgol Iach.



Mae ysgolion hefyd wedi dweud wrthym yr hoffent gael data bob dwy flynedd i fonitro ymddygiad lechyd eu myfyrwyr. Cynhelir yr arolwg Ymddygiad lechyd Plant Oed Ysgol bob pedair blynedd yn unig, felly rydym wrthi'n treialu e-aronwg, a fyddai'n golygu y gellid darparu data bob dwy flynedd. Y bwriad yw cyflwyno hyn i weddill y rhwydwaith ymhen blwyddyn. **Cysylltwch â ni os oes** gennych chi unrhyw ymholaethau ynglŷn ag adroddiad eich ysgol neu os hoffech gael cyfarfod â Joan.

Gwersi o Canada

Rhoddwyd y brif arraith yn ein digwyddiad lansio gan Steve Manske o Ganolfan Propel ar gyfer Effaith lechyd Poblogaeth ym Mhrifysgol Waterloo, Canada. Mae Propel wedi datblygu SHAPES, sef y System Gweithredu, Cynllunio a Gwerthuso lechyd Ysgolion, ac mae gweithio gyda hwy trwy gydol y broses o ddatblygu ein Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion yng Nghymru wedi bod yn amhrisiadwy. Yn ystod yr hydref, bu Joan a Gillian (ymchwilydd y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion) yn ddigon ffodus i ymweld â Propel. Dyma'r tro cyntaf i ni allu gweld eu gwaith yn uniongyrchol, a phrofodd yn gyfle gwych!

Trefnodd Steve a'r staff yn Propel amserlen lawn o gyfweliadau ac ymweliadau ar ein cyfer. Roedd y rhain yn cynnwys sgyrsiau ag ymchwiliwyr o bob rhan o Canada a staff lechyd y cyhoedd o asiantaethau taleithiol a lleol, ac ymweliad diddorol a bywiog ag ysgol leol. Bu'n bleser cyfarfod â phobl unfryd sy'n ymrwyamedig i wella iechyd pobl ifanc, a dysgu am y mentrau cyffrous a'r dulliau arloesol sydd ar waith yn y maes hwn.

Dysgom rai gwersi defnyddiol am ymdrin â phroblem ymarferol iawn daearyddiaeth. Gan fod ein rhwydwaith yn cynnwys ysgolion o bob rhan o Gymru, rydym ni bob amser yn awyddus i ddysgu mwy am gadw mewn cysylltiad dros belter...

Rydyn ni'n meddwl y bydd eraill yn yr ysgol â diddordeb yn hwn felly rhannwch e os gwelwch yn dda



@SHRNWales



SHRN@cardiff.ac.uk



SHRN.org.uk

rhywbeth y mae ein cydweithwyr yng Nghanada yn ei wneud yn arbennig o dda. Er bod angen i aelodau grwpiau gyfarfod wyneb yn wyneb, gwnaethant sylweddoli bod technoleg yn gallu cyflawni swyddogaeth bwysig pan nad yw hyn yn bosibl. Defnyddir gweminarau yn helaeth, ac maent yn sicr yn ymddangos yn ffordd synhwyrol o gysylltu aelodau ein Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion ledled Cymru. Gweler isod.

Yn ogystal â dysgu o'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghanada, rhoddodd y daith gyfle i ni fyfrio ar ein Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion a'i gyd-destun yng Nghymru. Trwy roi cyflwyniadau ar y rhwydwaith a'i drafod gydag eraill, daethom i'r casgliad, er bod lle i wella bob amser, bod llawer i'w ddathlu hefyd! Er enghraift, mae pob ysgol yng Nghymru yn cymryd rhan yng Nghynlluniau Rhwydwaith Ysgolion lach Cymru, ac mae gennym ni broses arolygu sy'n ystyried lles myfyrwyr, a gofynion cyfreithiol mewn perthynas â safonau maeth mewn ysgolion. Gan ychwanegu'r Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion at hyn, ceir potensial i wneud gwahaniaeth go iawn i ieched y pobl ifanc yng Nghymru.

Cysylltu ag ysgol yng Nghanada

Mae nifer o ysgolion ledled Canada yn defnyddio adroddiadau SHAPES i lywio camau gweithredu ieched a lles. A hoffech chi gysylltu ag un o'r ysgolion hyn i rannu profiadau ynglŷn â sut rydych chi'n defnyddio eich data myfyrwyr a'r camau y gall hyn eu hybu?

Gallai hwn fod yn gyfle gwynch i staff a myfyrwyr. Os hoffech chi gymryd rhan, **mynegwch eich diddordeb trwy anfon neges e-bost atom.**

Gwefan Newydd

Mae ein gwefan newydd wedi'i lansio erbyn hyn. Mae'n cynnwys gwybodaeth am nodau'r Rhwydwaith yn ogystal â map rhyngweithiol o holl ysgolion y Rhwydwaith yng Nghymru - chwiliwch am eich ysgol chi!

Ymchwil Hannah



Fy enw i yw Hannah ac, fel y bydd llawer ohonoch eisoes yn gwybod, rwyf yn fyfriwr PhD sy'n gwneud prosiect sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion. Nod fy ngwaith ymchwil yw archwilio gwella ieched mewn ysgolion a sut y defnyddir adroddiadau'r Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion. Mae'n cynnwys astudiaethau achos o 3 ysgol, lle yr wyl yn cyfweld staff, myfyrwyr a rhieni i gael eu barn ynglŷn â hyn. Rwyf wedi creiwtio'r 3 ysgol ar gyfer yr astudiaeth achos erbyn hyn ac wedi dechrau cynnal cyfweliadau ym mhob un ohonynt, sydd wedi bod yn ddiddorol a dadlennol iawn hyd yma. Mae'n wych bod y prosiect ar waith yn llawn erbyn hyn, a hoffwn ddiolch i'r 3 ysgol sy'n cymryd rhan yn yr astudiaethau achos yn ogystal â'r ysgolion eraill a gynigiodd gymryd rhan ar ôl i'r lleoedd gael eu llenwi.

Erbyn diwedd fy PhD, gobeithiaf fod wedi datblygu dealltwriaeth o strwythurau posibl a allai gael eu sefydlu'n fewnol ac yn allanol gan yr ysgol i helpu i gynyddu gweithgarwch gwella ieched a'r defnydd o'r adroddiadau ieched mewn ysgolion gymaint â phosibl. Mae angen eich cymorth chi arnaf i wneud hyn. Rwyf yn gofyn i un **cynrychiolydd o bob ysgol (yn ddelfrydol, cyswllt y rhwydwaith neu aelod o'r uwch dîm rheoli)** yn y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion i gwblhau arolwg ar-lein byr a ddylai gymryd 15 munud. Diolch i bawb ohonoch sydd eisoes wedi gwneud hyn, ond byddai'n wych cael barn y mwyafrif o'r ysgolion yn y rhwydwaith. E:bost LittlecottH@cardiff.ac.uk

Mae'r arolwg Cymraeg ar gael yma ac mae'r arolwg Saesneg ar gael yma.

Hoffem ddiolch i Steve Manske a'r staff yn Propel am ofalu amdanom mor dda a rhoi cyfle mor werthfawr i ni.



Joan, Steve a Gillian yn PROPEL

Ein Gweminar Gyntaf

Rydym ni'n credu y gallai'r cyfle i gael paned o de ar ôl diwrnod o addysgu cyn ymuno â ni o gysur eich cyfrifiadur yn yr ysgol fod yn wych i ddulliau cyfathrebu'r Rhwydwaith. Gallwch rannu eich barn am gynlluniau'r Rhwydwaith a gallwn gyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil i chi i gefnogi eich mentrau ieched a lles yn yr ysgol. Os oes digon o ddiddordeb, bwriadwn gynnal ein gweminar gyntaf ar ddiwedd mis Chwefror/yn gynnar ym mis Mawrth. Os hoffech gymryd rhan, mynegwch eich diddordeb trwy anfon neges e-bost atom. Byddwn yn anfon gwahoddiadau a manylion ynglŷn â sut y gallwch gymryd rhan ar ddechrau'r tymor nesaf.

Mae grŵp DECIPHer o bobl ifanc sy'n cyngori ynghylch ymchwil, sef ALPHA, yn grŵp o bobl ifanc 14-21 oed sydd ag ystod o brofiadau a safwyntiau, er mwyn helpu i sicrhau bod gwaith ymchwil yn adlewyrchu'r hyn sy'n berthnasol, yn bwysig ac yn dderbyniol i bobl ifanc.



Rydym ni wedi cydweithredu ag ALPHA drwy gydol y broses o ddatblygu a sefydlu'r Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion. Ystyriwyd eu safwyntiau a'u meddyliau hwy pan wnaed y cynnig cychwynnol am gyllid. Gwnaethom hefyd ofyn i'r bobl ifanc wneud sylwadau ar yr adroddiadau ysgol. Gwnaethant adolygu arddull a chynnwys yr adroddiadau yn ogystal â rhoi awgrymiadau i ni ynglŷn â ffyrdd posibl y gallai myfyrwyr yn ysgolion y rhwydwaith ymgysylltu â'u hadroddiad eu hunain. Yn rhan o'n hymrwymiad i bobl ifanc ALPHA, roeddem o'r farn y byddai'n fuddiol rhannu hyn. Roedd y grŵp yn credu y byddai'n fwyaf priodol i fyfyrwyr ystyried rhannau o'r adroddiad ar y tro yn hytrach na'r adroddiad cyfan.

Cyfarfod ALPHA ar waith

Sut i Gynnwys Myfyrwyr

Rhannu â grwpiau llais myfyrwyr	Gallai grwpiau llais myfyrwyr sydd eisoes wedi'u sefydlu, fel cynghorau ysgol, ystyried y data a chynllunio camau gweithredu priodol. Gellid sefydlu grŵp gwahanol sy'n canolbwytio ar iechyd i ystyried goblygiadau'r adroddiad.
Cyfleoedd yn y cwricwlwm i ystyried y data	Byddai'n dda caniatâu i fyfyrwyr ddefnyddio'r data go iawn mewn gwersi ac ar gyfer gwaith cwrs. e.e., gellid defnyddio'r siartiau data mewn Mathemateg; gallai gwersi Cymraeg a Saesneg ganolbwytio ar ysgrifennu neu gyflwyno ar wahanol agweddau ar yr adroddiad; gellid ystyried y data ar gyfer pob pwnc iechyd yn ystod Addysg Bersonol a Chymdeithasol; gallai'r set ddata fod yn werthfawr iawn ar gyfer yr Ymchwiliad Unigol yn rhan o Fagloriaeth Cymru. Dylai'r data gael ei gyflwyno mewn ffordd arloesol, fel trwy ymarferion a gemau e.e. pleidleisio electronig i ystyried ymatebion tebygol a allai arwain at drafodaethau diddorol.
Cyfleoedd eraill i rannu data â myfyrwyr	Gallai ysgolion drefnu wythnos i ganolbwytio ar iechyd. Ceir pum adran i'r adroddiad, felly gellid canolbwytio ar un pwnc iechyd bob diwrnod o'r wythnos. Gellid rhannu data yn ystod gwasanaethau trwy gyfrwng cyflwyniadau gan staff neu grwpiau llais myfyrwyr.

Mae ALPHA wrthi'n chwilio am aelodau newydd 14-19 oed o ardal de Cymru ar hyn o bryd. Mae'r grŵp yn cyfarfod unwaith y mis ar ddydd Sadwrn neu yn ystod gwyliau'r ysgol, a chynhelir un daith breswyl y flwyddyn. Bydd pobl ifanc yn elwa ar gymryd rhan yn ALPHA mewn sawl ffordd: datblygiad personol, dealltwriaeth o ddatblygu ymchwil a chyfrannu at ffurфio ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd. Dylai cymryd rhan fod yn fuddiol i fyfyrwyr wrth wneud cais am addysg bellach neu waith.

Telir am y costau i bobl ifanc fynychu cyfarfodydd a darperir cinio. Byddant yn cael talebau siopa ar y stryd fawr ar gyfer pob cyfarfod misol a fynychant i ddiolch iddynt am eu gwaith.

Os hoffai unrhyw un o'ch myfyrwyr gael rhagor o wybodaeth am ALPHA neu os oes ganddynt ddiddordeb mewn ymuno, gallant anfon neges e-bost at Ed ac Hayley yn ReedHM@caerdydd.ac.uk

Cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil

Cydweithrediad Hunanladdiad a Hunan-niwed Plant a Phobl Ifanc

A hoffai eich ysgol gymryd rhan ar ddechrau astudiaeth newydd a fabwysiadwyd gan y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion? Rydym ni'n chwilio am staff o ddeg ysgol sy'n rhan o'r Rhwydwaith ledled Cymru i helpu i ffurio'r gwaith ymchwil hwn. A ydych chi'n pryderu am sut i fynd ati i ymdrin â'r maes sensitif hwn? A hoffech chi rannu eich ymarfer ag eraill?

Gweithdy Hunanladdiad a Hunan-niwed Plant a Phobl Ifanc: Datblygu Ymyrraeth a Chymorth yn yr Ysgol

Dydd Llun 26 Ionawr 2015, 10am – 4pm, Prifysgol Caerdydd

Gellir talu treuliau ar gyfer aelod o staff o ddeg ysgol sy'n rhan o'r Rhwydwaith am gostau cyflenwi ar gyfer un diwrnod, teithio a llety dros nos lle y bo'r angen. Mae croeso i ysgolion ddod â mwy nag un cynrychiolydd, ond gallwn dalu treuliau ar gyfer un unigolyn fesul ysgol yn unig.

Anfonwch neges e-bost atom i fynegi eich diddordeb. Y dyddiad cau yw **Dydd Gwener 16fed Ionawr**.

Mae'r gweithdy hwn yn dynodi dechrau'r Cydweithrediad Hunanladdiad a Hunan-niwed Plant a Phobl Ifanc. Mae'r cydweithrediad yn dwyn ynghyd ysgolion, llunwyr polisiau ac ymchwilwyr sy'n ceisio datblygu'r agenda ymchwil ynglŷn â hunanladdiad a hunan-niwed mewn plant a phobl ifanc, gyda'r bwriad penodol o wella ymyrraeth a chymorth mewn lleoliadau addysgol. Bydd y gweithdy'n cynnwys:

Profiadau o Hunanladdiad a Hunan-niwed mewn Plant a Phobl Ifanc

Cyflwyniadau gan ymchwilwyr ynglŷn â'u gwaith ar hunanladdiad a hunan-niwed mewn plant a phobl ifanc ar draws amrywiaeth o leoliadau.

Ymgynghori â staff ysgol ynglŷn â'u profiadau o adnabod a chynorthwyo myfyrwyr sy'n profi teimladau hunanladdol a hunan-niweidiol.

Gosod yr Agenda Ymchwil

Cyflwyniadau gan ymchwilwyr a llunwyr polisiau ynglŷn â chyfeiriad ymchwil a pholisi sy'n ymdrin â hunanladdiad a hunan-niwed mewn plant a phobl ifanc yn y dyfodol, yn enwedig o ran lleoliadau addysgol.

Ymgynghori â staff ysgol ynglŷn â'u hanghenion a'u hargymhellion o ran cyfeiriad yr agenda ymchwil yn y dyfodol, a'r ffordd orau o ddatblygu ymyrraeth a chymorth mewn ysgolion.

Adnoddau

Ymgysylltu â Chymunedau Prifysgol Caerdydd

Rydym ni bellach yn gallu'ch cyfeirio at wefan Cymorth Cwricwlwm Prifysgol Caerdydd am gyfoeth o gyfleoedd i'ch ysgol gael mynediad at hyfforddiant a chymorth arall.

Lluniwyd y safle Cymorth Cwricwlwm i ganiatâu i athrawon chwilio'r ystod lawn o weithgareddau ymgysylltu sy'n gy-sylltiedig â'r cwricwlwm yn ôl **cyfnod allweddol, pwnc cwricwlwm, math o weithgaredd ac Ysgol Academaidd**. Yn ogystal â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, mae'r cyfleuster chwilio **rhaglen** yn caniatâu i athrawon gysylltu'n uniongyrchol â'r ystod lawn o raglenni allgymorth ysgol a gynigir gan y Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y gweithgareddau a'r digwyddiadau hynny a gynlluniwyd i annog myfyrwyr i anelu at addysg uwch a pharatoi ar ei chyfer, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â sefydliadau ymchwil a sefydliadau partner eraill.

Bydd y safle ar gael yn Gymraeg ym mis Ionawr 2015.



Ymchwil Canser y DU

Mae gemau ac apiau Gwyddoniaeth Dinas ydion ar gael i'ch myfyrwyr ar-lein trwy wefan Ymchwil Canser y DU. Gall myfyrwyr greu byd hudol, achub hil o weision bach a helpu **gwyddonwyr Ymchwil Canser y DU i ddadansoddi data go iawn am ganser** trwy'r gêm bos Reverse the Odds. Mae'r holl gemau ar gael [yma](#).

Arolwg Pobl Ifanc ac E-sigaréts 2014 ASH Cymru

Mae ASH Cymru yn cynnal arolwg o bobl ifanc 13-18 oed ynglŷn ag e-sigaréts. Os hoffech chi i'ch myfyrwyr gymryd rhan, gallwch weld yr arolwg ar-lein a'i lenwi [yma](#) hyd at 19 Rhagfyr 2014.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr arolwg, cysylltwch â Steven.Macey@ashwales.org.uk

